



Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

Polisi Teithio o'r Cartref i'r Ysgol 2020

Dogfen Ymgynghori

Dyddiad cyflwyno: **Dydd Llun 10 Mehefin 2019**

Gweithredu sy'n ofynnol: Ymatebion erbyn **dydd Sul 4 Awst 2019**

**Mae'r ddogfen hon ar gael mewn fformatau eraill ar gais.
E-bostiwch eich cais i: education@npt.gov.uk**

Pam mae'r polisi presennol ar gyfer teithio o'r cartref i'r ysgol wedi cael ei adolygu?.....1

Y polisi newydd sy'n cael ei gynnig.....3

Y newidiadau sy'n cael eu cynnig o dan y polisi newydd5

Os yw'r newidiadau'n digwydd, beth fydd hynny'n ei olygu?.....7

Beth bydd y Cyngor yn ei wneud i ddarparu cefnogaeth ar ôl unrhyw newidiadau?.....7

Y broses ymgynghori11

Sut mae ymateb.....12

Pwy sy'n rhan o'r ymgynghoriad.....12

Atodiad A – Polisi Teithio o'r Cartref i'r Ysgol 2020.....13

Pam mae'r Cyngor yn ymgynghori ar bolisi newydd arfaethedig ar gyfer teithio o'r cartref i'r ysgol?

Mae disgwyl bod gan bob Cyngor yng Nghymru bolisi teithio o'r cartref i'r ysgol sy'n nodi sut maen nhw'n darparu cymorth teithio, a dylai hynny gael ei adolygu'n rheolaidd.

Daeth polisi presennol y Cyngor i rym ar 1 Medi 2017. Mae'r polisi hwn wedi cael ei adolygu, ac yn awr mae'r Cyngor yn ceisio barn rhanddeiliaid ar y polisi newydd sy'n cael ei gynnig.

Mae'r Cyngor, fel pob un arall yng Nghymru, yn dal i ddioddef effeithiau torri'n ôl ar eu cyllid. O ganlyniad, mae'n rhaid i'r Cyngor adolygu ei holl wasanaethau ac ystyried opsiynau ar gyfer lleihau gwariant a/neu gynyddu incwm trwy ailgyflunio, torri neu leihau'r gwasanaethau mae'r Cyngor yn eu darparu. O ran trefniadau teithio o'r cartref i'r ysgol mae'n rhaid i'r Cyngor ystyried a yw'n gallu parhau i ddarparu cymorth teithio y tu hwnt i'r hyn sy'n ofynnol o dan ei rwymedigaethau statudol, a lle codir tâl, a yw'r tâl hwnnw'n addas. Mae adolygu polisi presennol y Cyngor ar gyfer teithio o'r cartref i'r ysgol yn cyfrannu at strategaeth gyllideb ehangach y Cyngor trwy wneud y defnydd mwyaf effeithlon o adnoddau a sicrhau bod y cymorth teithio sy'n cael ei ddarparu yn gost-effeithiol.

Gwybodaeth ariannol 2018-2019 am gostau teithio o'r cartref i'r ysgol	Gwariant
Addysg Gynradd – yn y Sir	£889,692
Addysg Gynradd – tu allan i'r Sir	£ 67,402
Addysg Uwchradd – yn y Sir	£ 1,655,636
Addysg Uwchradd – tu allan i'r Sir	£250,524
Anghenion Addysgol Arbennig – yn y Sir	£ 2,926,793
Anghenion Addysgol Arbennig – tu allan i'r Sir	£130,626
Anghenion Addysgol Arbennig ôl-16 – yn y Sir	£ 208,521
Anghenion Addysgol Arbennig ôl-16 – tu allan i'r Sir	£20,212
Ôl-16 – tu allan i'r Sir	£ 1,783
Ôl-16 – yn y Sir	£ 5,859
Darparu Gwasanaeth Trafnidiaeth	£29,766
CYFANSWM Y GOST	£6,186,815

Mae'r polisi newydd a gynigir hefyd yn rhoi eglurhad ynghylch y meini prawf sy'n cael eu defnyddio i benderfynu a oes hawl i gymorth teithio o'r cartref i'r ysgol.

Mae teithio o'r cartref i'r ysgol yn syrthio i ddau gategori, **statutol** a **disgresiynol**. Mae'r Cyngor yn cynnig hawl i drefniadau teithio o'r cartref i'r ysgol trwy **gynnig statudol** (y trefniadau mae angen i'r Cyngor eu gwneud o dan y gyfraith i sicrhau bod y rhai sydd â hawl i hynny yn cael teithio am ddim) neu **gynnig disgresiynol** (y trefniadau a wnaed gan y Cyngor trwy ddewis yn hytrach na rhai sy'n ofynnol).

Ar hyn o bryd mae cyfrifoldeb cyfreithiol ar y Cyngor (**y cynnig statudol**) i ddarparu cymorth teithio am ddim i safle dysgu ac oddi yno ar gyfer y canlynol:

- yr holl ddysgwyr sy'n derbyn addysg gynradd (5-11 oed) ac sy'n byw ddwy filltir neu ymhellach o'u cartref i'w hysgol addas agosaf, neu lle nad oes llwybrau cerdded addas/agored, hyd yn oed os yw'r pellter yn llai na'r hyn a nodwyd
- yr holl ddysgwyr sy'n derbyn addysg uwchradd (11-16 oed) ac sy'n byw dair milltir neu ymhellach o'u cartref i'w hysgol addas agosaf, neu lle nad oes llwybrau cerdded addas/agored, hyd yn oed os yw'r pellter yn llai na'r hyn a nodwyd
- yr holl ddysgwyr sy'n mynychu darpariaeth arbenigol ac sy'n methu cerdded i'r ysgol oherwydd eu angen dysgu ychwanegol/ angen addysg arbennig, anabledd, neu lle nad oes llwybrau cerdded addas/agored, hyd yn oed os yw'r pellter yn llai na'r hyn a nodwyd uchod
- yr holl ddysgwyr sy'n Blant sy'n Derbyn Gofal gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn darparu cymorth teithio am ddim o dan **gynnig disgresiynol** ar gyfer y canlynol:

- dysgwyr sy'n mynychu ysgol Wirfoddol Gymorthedig (Ffydd) lle mae'r ysgol honno'n cynnig y ddarpariaeth addas agosaf ac mae'r meini prawf o ran pellter yn cael eu bodloni.
- dysgwyr sy'n mynychu ysgol Gymraeg lle mae'r ysgol honno'n cynnig y ddarpariaeth addas agosaf ac mae'r meini prawf o ran pellter yn cael eu bodloni.

Ar hyn o bryd nid oes gofynion i ddarparu trefniadau teithio am ddim o'r cartref i'r ysgol ar gyfer y dysgwyr canlynol:

- rhai sydd y tu allan i'r ystod oed statudol ar gyfer mynd i'r ysgol – mae hyn yn cynnwys plant oed meithrin yn ogystal â myfyrwyr ôl-16
- rhai sydd ddim yn mynychu eu hysgol addas agosaf

Y polisi newydd arfaethedig

Mae'r polisi newydd **arfaethedig** wedi'i gynnwys yn Atodiad A. Y cynnig yw, os daw'r newidiadau i rym, y bydd y Polisi newydd ar gyfer Teithio o'r Cartref i'r Ysgol yn cael ei gyflwyno ar **1 Medi 2020**. Mae'r polisi newydd a gynigir yn cydymffurfio â'r holl ddyletswyddau statudol a osodir ar y Cyngor.

Mae'r polisi newydd yn nodi sut bydd y Cyngor yn darparu cymorth ar gyfer teithio o'r cartref i'r ysgol, ond mae cyfrifoldeb ar rieni/ofalwyr i sicrhau bod eu plentyn yn cyrraedd yr ysgol, gan gynnwys eu hebrwng os bydd angen.

Mae'r polisi hwn yn darparu rhagor o fanylion ac esboniad, a'r gobaith yw y bydd y manylion hyn yn rhoi dealltwriaeth glir i rieni/ofalwyr o'r hyn sy'n gymwys a'r hyn nad yw'n gymwys wrth ystyried a yw eu plentyn neu eu person ifanc yn gymwys i dderbyn cymorth teithio o'r cartref i'r ysgol.

Mae'r polisi arfaethedig yn cadarnhau, er bod y Cyngor yn gyfrifol am ddarparu cymorth teithio i blant a phobl ifanc sy'n byw o fewn ardal y Cyngor, nad oes hawl awtomatig i hynny. Mae hyn yn cynnwys dysgwyr prif ffrwd a dysgwyr sy'n mynychu ysgolion arbennig.

Mae'r polisi arfaethedig hefyd yn cadarnhau, lle cynigiwyd cymorth teithio, ac mae hynny wedi cael ei dderbyn, nad oes hawl absoliwt parhaus, gan fod cynigion yn cael eu hadolygu os bydd newid yn yr amgylchiadau a arweiniodd at y cynnig gwreiddiol, e.e. os bydd newid cyfeiriad neu os daw llwybr y barnwyd ei fod yn anaddas yn y gorffennol ar gael.

Yn dilyn ceir manylion yr hyn sy'n cael ei gynnig:

Teithio statudol o'r cartref i'r ysgol

Nid oes newid i'r trefniadau o dan y polisi newydd a gynigir:

- bydd dysgwr oed ysgol gorfodol sy'n mynychu'r **ysgol addas agosaf** ac sy'n bodloni'r meini prawf o ran pellter yn dal i fod yn gymwys i deithio am ddim o'r cartref i'r ysgol.
- bydd y dysgwr hynny sy'n mynychu eu hysgol addas agosaf, ond sydd heb lwybr

cerdded addas, beth bynnag yw'r pellter, yn dal yn gymwys i deithio am ddim o'r cartref i'r ysgol.

- Dysgwr sy'n Derbyn Gofal gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
- bydd y dysgwr hynny sydd ag anghenion dysgu ychwanegol/anghenion addysgol arbennig sy'n mynychu eu darpariaeth arbenigol **addas agosaf** yn ôl eu hanghenion ac sy'n bodloni'r meini prawf pellter yn dal yn gymwys i deithio am ddim o'r cartref i'r ysgol. Neu blentyn sydd ag angen, anabledd neu broblem symudedd perthnasol sy'n byw o fewn pellter cerdded i'r ysgol addas agosaf ond na ellir disgwyl yn rhesymol iddo/iddi gerdded, hyd yn oed o gael ei hebrwng, i'r ysgol oherwydd yr angen, yr anabledd neu'r broblem symudedd dan sylw.

Anghenion Dysgu Ychwanegol/Arbennig Ôl-16

Dylid nodi bod y polisi newydd arfaethedig yn cadarnhau na fydd y bobl ifanc hynny y bu ganddynt ddatganiad o anghenion addysgol yn flaenorol, ond nad ydynt yn trosglwyddo i ddarpariaeth arbenigol ôl-16, yn parhau'n gymwys ar gyfer cymorth teithio o'r cartref i'r ysgol.

Teithio disgresiynol o'r cartref i'r ysgol

Nid oes newid i'r trefniadau o dan y polisi a gynigir ar gyfer:

- dysgwyr sy'n mynychu ysgolion Gwirfoddol Gymorthedig (Ffydd), os ydynt yn mynychu'r ysgol addas agosaf ar gyfer eu dewis o enwad
- dysgwyr sy'n mynychu ysgolion Cymraeg, os ydynt yn mynychu'r ysgol addas agosaf ar gyfer eu dewis iaith

Dylid nodi mewn rhai achosion na fydd dysgwyr o reidrwydd yn mynychu eu hysgol agosaf yn ôl eu dewis i gael darpariaeth addysgol gyfrwng Gymraeg, ac mae'r ddogfen ymgynghori hon yn cynnwys ymgynghoriad â'r rhieni hynny a ddewisodd anfon eu plentyn i ysgol Gymraeg benodol nad yw o reidrwydd yn ysgol agosaf i'w cyfeiriad cartref. O dan y polisi newydd a gynigir, o fis Medi 2020, ni fydd cymorth teithio'n cael ei gynnig i'r dysgwyr hynny nad ydynt yn mynychu eu hysgol Gymraeg agosaf, sy'n golygu y bydd unrhyw drefniadau cyfredol yn dod i ben, gan y bernir mai dewis rhieni sydd dan sylw.

Dewis Rhieni

Mae'r polisi newydd yn nodi, lle nad yw disgybl yn mynychu'r ysgol addas agosaf oherwydd bod y rhiant/gofalwr wedi dewis anfon y plentyn i ysgol arall sy'n bellach i ffwrdd na'r ddarpariaeth

addysgol addas agosaf; bernir bod hynny'n ddewis rhieni, ac ni fydd hawl i gael cymorth teithio. Mae hyn yn cynnwys dysgwyr sy'n mynychu ysgolion prif ffrwd a dysgwyr sy'n mynychu ysgolion arbennig.

Y newidiadau sy'n cael eu cynnig o dan y polisi newydd

Y Cynllun Seddau Sbâr

Mae'r Cyngor yn gweithredu Cynllun Seddau Sbâr, sy'n rhoi cyfle i ddysgwyr/fyfyrwyr sydd heb hawl i gael cymorth teithio am ddim o'r cartref i'r ysgol brynu sedd sbâr, os oes un ar gael.

Mae'r polisi newydd yn cynyddu'r tâl a godir am sedd sbâr. Cynigir y bydd y tâl am sedd sbâr yr un fath ar gyfer pob dysgwr a myfyriwr, sef tâl newydd o £390. Mae hyn yn cynrychioli taliad o £130 y tymor (neu £2 y dydd / £1 y daith ar sail blwyddyn academiaidd gyda 195 o ddiwrnodau ysgol). Mae hyn yn codi o £260 yn achos plant meithrin a dysgwyr oed ysgol gorfodol, ac o £100 yn achos myfyrwyr ôl-16. Diben y newid yw codi'r un tâl am bob sedd sbâr. Bwriad cynyddu'r gost yw sicrhau bod y tâl yn cyfateb i'r hyn a geir mewn Cynghorau cymdogol, a phris prynu tocyn ar gludiant cyhoeddus ar ffurf tocyn teithio ar y bws.

Y tâl a godir gan Gynghorau eraill -

Abertawe - £425 y flwyddyn neu £460 y flwyddyn os telir amdano dros 10 mis

Pen-y-bont ar Ogwr - £380 (o fis Medi 2019)

Powys - £390 ar gyfer rhai o dan 16 a £525 ar gyfer rhai dros 16.

Dylid nodi y bydd sedd sbâr yn dal i gael ei thynnu'n ôl os bydd angen y lle ar y daith ar gyfer disgybl sy'n gymwys i deithio i'r ysgol am ddim.

Dwy Breswylfa

Mae'r polisi newydd yn cadarnhau'r trefniadau o ran hawl cymorth teithio o'r cartref i'r ysgol y dysgwyr hynny sy'n byw mewn mwy nag un cyfeiriad (dwy breswylfa), e.e. maen nhw'n byw gydag un rhiant ddydd Sul, dydd Llun a dydd Mawrth a gyda'r rhiant arall ddydd Iau, dydd Gwener a dydd Sadwrn. Mae'r polisi'n cadarnhau, o 1 Medi 2020, mai cymorth i'r ysgol addas agosaf yn unig fydd yn cael ei gynnig neu ei barhau, cyhyd â bod y meini prawf pellter yn cael eu bodloni e.e. Dim hawl o un cyfeiriad achos mae'r dysgwr yn byw of fewn pellter cerdded stadudol ond mae'r ail cyfeiriad yn gymwys oherwydd mae'n cwrdd â meini prawf pellter ac y meini prawf ysgol addas agosaf. Ni fydd hawl absoliwt o gyfeiriadau lluosog.

O dan ei bwerau disgrisiynol, bydd y Cyngor yn ystyried ceisiadau am gymorth teithio i'r dysgwyr hynny sydd â dwy breswylfa, os yw'r ysgol yn ysgol addas agosaf i un o'r cyfeiriadau, ac er nad yw'r ail gyfeiriad yn gymwys, mae darpariaeth drafnidiaeth ar gael eisoes o'r cartref i'r ysgol ar y llwybr hwnnw (bydd hynny trwy brynu sedd sbâr).

Ymhellach, os nad yw'r naill gyfeiriad na'r llall yn briodol i fod yn gymwys o dan y meini prawf ysgol addas agosaf, ni fydd hawl i'r naill gyfeiriad na'r llall dderbyn cymorth teithio o'r cartref i'r ysgol, gan y bydd hynny'n cyfrif fel 'dewis rhieni'.

Cynllun Symudedd 'Motability'

Mae'r polisi newydd yn cyfeirio at gerbydau "Cynllun Symudedd Motability" ac yn datgan, os bydd plentyn neu berson ifanc yn derbyn y lwfans perthnasol i fod yn gymwys ar gyfer y "Cynllun Symudedd Motability" ac mae'r rhiant/gofalwr yn cael cerbyd trwy'r cynllun, mae'r Cyngor yn disgwyl i'r cerbyd gael ei ddefnyddio er lles y plentyn/person ifanc a'i ddefnyddio i gludo'r plentyn/person ifanc i'w darpariaeth addysgol ac oddi yno. Mewn rhai achosion, gall y Cyngor gynnig cymorth. O dan yr amgylchiadau hyn, bydd pob achos yn cael ei ystyried yn ôl ei rinweddau ei hun, ac fel arfer cynigir lwfans milltiroedd i'r rhieni.

Proses Apêl Dau-Gam

Mae'r polisi newydd yn newid y broses flaenorol ar gyfer apeliadau ac yn cyflwyno proses "dau-gam". Cam un yw adolygiad gan Grŵp Trafnidiaeth y Cyngor, ac os yw'r apelydd am symud ymlaen i gam dau o'r broses, bydd hynny'n cynnwys adolygiad gan banel apêl.

Mathau o gymorth teithio a gynigir

Rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn gwneud y defnydd gorau o gyllid cyhoeddus, ac mae hynny'n golygu sicrhau'r dull mwyaf cost-ffeithiol o gynnig cymorth teithio. Mae'r polisi arfaethedig yn nodi pa fathau o gymorth teithio all gael eu cynnig. Mae hyn yn golygu na fydd cynnig math penodol o gymorth teithio yn hawl absoliwt os ceir hyd i ddull mwy cost-ffeithiol yn dilyn adolygiad.

Mae'r polisi a gynigir yn cadarnhau na fydd cerbydau'n cael eu darparu at ddefnydd person unigol ond o dan amgylchiadau eithriadol dros ben. Y rheswm am hynny yw nad cerbyd i un person yw'r math gorau a mwyaf cost-ffeithiol o gymorth teithio sydd ar gael bob amser.

Ar ben hynny, mae'r polisi arfaethedig yn cadarnhau y bydd disgwyl i ddysgwyr/fyfyrrwyr sydd

wedi cwblhau eu hyfforddiant teithio annibynnol yn llwyddiannus deithio i'r man lle maent yn dysgu ac oddi yno'n annibynnol, e.e. trwy ddefnyddio tocyn teithio ar gyfer bws cyhoeddus.

Ceisiadau ar-lein

Mae'r polisi newydd yn cyfeirio at y ffaith y dylid gwneud ceisiadau am gymorth teithio o'r cartref i'r ysgol ar-lein. Diben hynny yw sicrhau gwasanaeth effeithlon a chost-effeithiol.

Os daw'r newidiadau i rym, beth fydd ystyr hynny?

- Mae'n bosibl na fydd disgybl/myfyriwr bellach yn gymwys i dderbyn cymorth teithio o dan y polisi newydd
- Mae'n bosibl y bydd disgybl/myfyriwr yn dal yn gymwys, ond na fydd y math o gymorth teithio sy'n cael ei gynnig yr un fath â'r hyn mae'n ei dderbyn ar hyn o bryd
- Bydd angen i ddisgybl/myfyriwr dalu mwy am sedd sbâr
- Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i dynnu cymorth teithio yn ôl, gan roi rhybudd, os bydd dysgwr yn peidio â bod yn gymwys neu ar unwaith os yw'r dysgwr wedi gwneud cais trwy dwyll, gan adennill unrhyw gostau o ganlyniad i'r cais ffug, lle bo hynny'n briodol.

Beth fydd y Cyngor yn ei wneud i ddarparu cefnogaeth yn dilyn unrhyw newidiadau?

- Bydd y Cyngor yn sicrhau bod unrhyw benderfyniadau yn cael eu seilio ar asesiad o'r plentyn neu'r person ifanc a'u hanghenion
- Os bydd y Cyngor yn cyflwyno dyddiad i ddod â threfniant i ben, bydd yn sicrhau bod digon o rybudd yn cael ei roi ymlaen llaw
- Bydd y Cyngor yn rhoi amser i rieni/ofalwyr wneud trefniadau amgen os nad oes cymorth teithio'n cael ei ddarparu bellach

Mae'r tabl sy'n dilyn yn rhoi enghreifftiau o'r hyn y gallai'r newidiadau arfaethedig ei olygu:

	Trefniant Presennol	Newid
Myfyriwr ôl-16 (Cyfrwng Saesneg)	Yn mynychu Coleg Castell-nedd Port Talbot	Dim cymorth teithio'n cael ei gynnig. Cynnydd posibl yn y tâl am brynu sedd sbâr, o £100 i £390

Myfyriwr ôl-16 (Cyfrwng Cymraeg)	Yn mynychu YG Ystalyfera	Dim cymorth teithio'n cael ei gynnig. Cynnydd posibl yn y tâl am brynu sedd sbâr, o £100 i £390
Myfyriwr ôl-16 (Ffydd)	Yn mynychu Ysgol Gatholig a 6ed Dosbarth Sant Joseff	Dim cymorth teithio'n cael ei gynnig. Cynnydd posibl yn y tâl am brynu sedd sbâr, o £100 i £390
Myfyriwr ôl-16 sydd ag ADY/AAA mewn darpariaeth arbenigol	Myfyrwyr sy'n parhau i fynychu darpariaeth arbenigol a lle mae hawl i dderbyn cymorth teithio wedi bodoli'n flaenorol	Cymorth teithio am ddim yn cael ei gynnig
Myfyriwr ôl-16 ag ADY/AAA nad yw mewn darpariaeth arbenigol	Myfyrwyr ADY/AAA y bu ganddynt ddatganiad/cynllun datblygu unigol yn flaenorol, sy'n pontio i ddarpariaeth nad yw'n arbenigol	Dim cymorth teithio'n cael ei gynnig.
Disgybl Uwchradd (Cyfrwng Saesneg) 11-16 oed	Disgybl A Mae'n mynychu ysgol uwchradd Saesneg sy'n ysgol agosaf, ond mae'n byw dros 3 milltir o'r ysgol neu does dim llwybr cerdded addas ar gael Disgybl B Mae'n mynychu ysgol uwchradd Saesneg, ond nid dyna'r ddarpariaeth addysg uwchradd agosaf (Dewis Rhieni)	Cymorth teithio yn cael ei gynnig Ni fydd cymorth teithio o'r cartref i'r ysgol yn cael ei gynnig. Bydd cynnydd posibl yn y tâl am brynu sedd sbâr, o £260 i £390
Disgybl Uwchradd (Cyfrwng Cymraeg) 11-16 oed	Disgybl C Mae'n mynychu YG Ystalyfera, sef yr ysgol agosaf ar gyfer darpariaeth uwchradd trwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae'n byw dros 3 milltir o'r ysgol, neu does dim llwybr cerdded addas ar gael Disgybl D Mae'n mynychu YG Ystalyfera, ond nid dyna'r ddarpariaeth addysg uwchradd agosaf trwy gyfrwng y Gymraeg (Dewis Rhieni)	Cymorth teithio yn cael ei gynnig Ni fydd cymorth teithio o'r cartref i'r ysgol yn cael ei gynnig. Bydd cynnydd posibl yn y tâl am brynu sedd sbâr, o £260 i £390

<p>Disgybl Uwchradd (Ffydd) 11-16 oed</p>	<p>Disgybl E</p> <p>Mae'n mynychu Ysgol Gatholig a 6ed Dosbarth Sant Joseff, sef yr ysgol agosaf ar gyfer darpariaeth uwchradd ffydd, ac mae'n byw dros 3 milltir o'r ysgol neu does dim llwybr cerdded addas ar gael</p> <p>Disgybl F</p> <p>Mae'n mynychu Ysgol Gatholig a 6ed Dosbarth Sant Joseff, ond nid dyna'r ddarpariaeth addysg uwchradd agosaf o ran Ffydd (Dewis Rhieni)</p>	<p>Cymorth teithio yn cael ei gynnig</p> <p>Ni fydd cymorth teithio o'r cartref i'r ysgol yn cael ei gynnig. Bydd cynnydd posibl yn y tâl am brynu sedd sbâr, o £260 i £390</p>
<p>Disgybl Cynradd (Cyfrwng Saesneg) 5-11 oed</p>	<p>Disgybl A</p> <p>Mae'n mynychu ysgol gynradd Saesneg, sef yr ysgol Saesneg agosaf, ond mae'n byw dros 2 filltir o'r ysgol neu does dim llwybr cerdded addas yn bodoli</p> <p>Disgybl B</p> <p>Mae'n mynychu ysgol gynradd Saesneg, ond nid dyma'r ddarpariaeth addysg gynradd Saesneg agosaf (Lleoliad a Ffafir)</p>	<p>Cynigir cymorth teithio</p> <p>Ni fydd cymorth teithio o'r cartref i'r ysgol yn cael ei gynnig. Bydd cynnydd posibl yn y tâl am brynu sedd sbâr, o £260 i £390</p>
<p>Disgybl Cynradd (Cyfrwng Cymraeg) 5-11 oed</p>	<p>Disgybl C</p> <p>Mae'n mynychu ysgol gynradd Gymraeg, sef yr ysgol Gymraeg agosaf, ond mae'n byw dros 2 filltir o'r ysgol neu does dim llwybr cerdded addas yn bodoli</p> <p>Disgybl D</p> <p>Mae'n mynychu ysgol gynradd Gymraeg, ond nid dyna'r ysgol gynradd Gymraeg agosaf (Lleoliad a Ffafir)</p>	<p>Cynigir cymorth teithio</p> <p>Ni fydd cymorth teithio o'r cartref i'r ysgol yn cael ei gynnig. Bydd cynnydd posibl yn y tâl am brynu sedd sbâr, o £260 i £390</p>
<p>Disgybl Cynradd (Ffydd) 5-11 oed</p>	<p>Disgybl E</p> <p>Mae'n mynychu ysgol gynradd Ffydd, sef yr ysgol Ffydd agosaf, ond mae'n byw dros 2 filltir o'r ysgol neu does dim llwybr cerdded addas yn bodoli</p> <p>Disgybl F</p> <p>Mae'n mynychu ysgol gynradd Ffydd, ond nid dyna'r ddarpariaeth addysg gynradd Ffydd agosaf (Lleoliad a Ffafir)</p>	<p>Cynigir cymorth teithio</p> <p>Ni fydd cymorth teithio o'r cartref i'r ysgol yn cael ei gynnig. Bydd cynnydd posibl yn y tâl am brynu sedd sbâr, o £260 i £390</p>

Disgybl Meithrin (Cyfrwng Saesneg) O dan 5 oed	Disgybl A Mae'n mynychu darpariaeth feithrin Saesneg mewn ysgol gynradd Saesneg sydd naill ai'n ysgol addas agosaf neu'n lleoliad a ffafrir	Ni fydd cymorth teithio o'r cartref i'r ysgol yn cael ei gynnig. Bydd cynnydd posibl yn y tâl am brynu sedd sbâr, o £260 i £390 Pro Rata
Disgybl Meithrin (Cyfrwng Cymraeg) O dan 5 oed	Disgybl B Mae'n mynychu darpariaeth feithrin Gymraeg mewn ysgol gynradd Gymraeg sydd naill ai'n ysgol addas agosaf neu'n lleoliad a ffafrir	Ni fydd cymorth teithio o'r cartref i'r ysgol yn cael ei gynnig. Bydd cynnydd posibl yn y tâl am brynu sedd sbâr, o £260 i £390 Pro Rata
Disgybl Meithrin (Ffydd) O dan 5 oed	Disgybl C Mae'n mynychu darpariaeth feithrin Ffydd mewn ysgol gynradd Ffydd, sef yr ysgol addas agosaf neu'n lleoliad a ffafrir	Ni fydd cymorth teithio o'r cartref i'r ysgol yn cael ei gynnig. Bydd cynnydd posibl yn y tâl am brynu sedd sbâr, o £260 i £390 Pro Rata
Dysgwyr ag ADY / AAA 11-16 oed a 5-11 oed	Maen nhw'n mynychu eu darpariaeth arbenigol fwyaf addas, ac oherwydd angen, anabledd, problemau symudedd maent yn methu cerdded, os yw'r ddarpariaeth fwyaf addas yn nes na'r meini prawf pellter. (gall hyn gynnwys plant oed meithrin i'w hasesu mewn darpariaeth arbenigol ar gyfer plant cyn-ysgol)	Cynigir cymorth teithio
Dysgwyr ag ADY / AAA 11-16 oed 5-11 oed o dan 5	Mae'n mynychu darpariaeth arbenigol trwy ddewis rhieni	Ni fydd cymorth teithio o'r cartref i'r ysgol yn cael ei gynnig. Bydd cynnydd posibl yn y tâl am brynu sedd sbâr, o £260 i £390

Mae rhai dysgwr ag ADY/AAA sydd o oedran Ysgol gorfodol yn cael eu dysgu o fewn lleoliad dysgu prif ffrwd ond gyda chymorth rhagnodedig (cadarnhwyd ar eu datganiad/cynllun dysgu unigol). I'r dysgwr yma, fydd cymorth teithio yn cael ei ystyried ar sail unigol.

Y Broses Ymgynghori

Rhan bwysig o'r broses, wrth ystyried unrhyw newid, yw pwysu a mesur barn rhanddeiliaid. Diben y ddogfen ymgynghori hon yw amlinellu'r newidiadau **arfaethedig**, o dan bolisi newydd **arfaethedig**. Mae'r ddogfen hon wedi cael ei pharatoi i roi gwybodaeth i rhanddeiliaid am y polisi newydd a gynigir a rhoi cyfle i rhanddeiliaid leisio barn.

Mae'r ymarferiad ymgynghori hwn yn digwydd er mwyn i'r Cyngor gasglu barn rhanddeiliaid ar y polisi newydd arfaethedig, a bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn helpu i lywio'r Cyngor wrth wneud unrhyw benderfyniadau yng nghyswllt y polisi. Wedi i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben, bydd yr holl sylwadau a ddaw i law yn cael eu cyflwyno i Fwrdd Cabinet y Cyngor, a byddwn ni'n rhoi sylw i'r holl safbwyntiau a fynegwyd wrth i Aelodau Bwrdd y Cabinet wneud unrhyw benderfyniad.

Os penderfynir gweithredu'r cynnig, heb ei newid, bydd y Polisi newydd ar gyfer Teithio o'r Cartref i'r Ysgol yn dod i rym ar **1 Medi 2020**. Os penderfynir peidio â symud ymlaen gyda'r cynnig, mae'n bosibl y byddant yn chwilio am gynnig amgen.

Mae'r amserlen isod yn nodi beth fydd yn digwydd, a phryd:

Beth	Pryd
Dechrau'r ymgynghoriad	Dydd Llun 10 Mehefin 2019
Diwedd yr ymgynghoriad	Dydd Sul 4 Awst 2019
Dyddiad gweithredu arfaethedig ar gyfer y polisi newydd	1 Medi 2020

(Sylwch na fydd unrhyw ymateb a ddaw i law wedi'r dyddiad uchod yn cael ei ystyried)

Sut mae ymateb

Mae'r Cyngor yn gofyn i randdeiliaid ateb y cwestiynau a darparu barn trwy arolwg ar-lein. Mae'r Cyngor yn gallu darparu copïau papur o'r arolwg a fformatau hygyrch ar gais. E-bostiwr eich cais i education@npt.gov.uk (rhowch 'Ymgynghoriad Teithio o'r Cartref i'r Ysgol' yn deitl ar yr e-bost) neu ffoniwch 01639 763226 gyda'ch cais.

Arolwg Ymgynghori Ar-lein – Gall rhanddeiliaid gyrchu porthol ymgynghori'r Cyngor, sy'n caniatáu i randdeiliaid wneud sylwadau ar y polisi newydd a gynigir. Cliciwch yma i gyrchu'r arolwg ar-lein: [Home to School Transport Consultation](#) neu ewch i adran ymgynghori gwefan y Cyngor: www.npt.gov.uk

Digwyddiadau – Yn achos yr ymgynghoreion hynny fydd am fanteisio ar y cyfle i ofyn cwestiynau am y polisi newydd arfaethedig, cynhelir digwyddiadau ymgynghori galw heibio, heb fod angen cadw lle ymlaen llaw. Trefnwyd y digwyddiadau canlynol:

Pryd	Ble
12pm – 2pm 17 Mehefin 2019 4pm – 6pm 20 Mehefin 2019	Canolfan Ddinesig Port Talbot Ystafell Bwyllgor 3
12pm – 2pm 2 Gorffennaf 2019 4pm – 6pm 2 Gorffennaf 2019	Canolfan Ddinesig Castell-nedd Ystafelloedd Pwyllgor A a B

Pwy sy'n rhan o'r ymgynghoriad

- Dysgwyr a'u rhieni/gofalwyr
- Ysgolion a Cholegau
- Darparwyr addysgol eraill
- Cwmnïau Trafnidiaeth
- Cyfarwyddiaethau eraill CNPT e.e. Gwasanaethau Cymdeithasol
- Llywodraeth Cymru
- Awdurdodau Lleol Cynddogol
- Sefydliadau eraill sy'n ymwneud â chymorth teithio o'r cartref i'r ysgol yng Nghastell-nedd Port Talbot
- Unrhyw un arall sydd â diddordeb yn y polisi newydd sy'n cael ei gynnig

Atodiad A – Polisi Teithio o'r Cartref i'r Ysgol 2020